Llithro'n llon

Trosolwg

Defnyddiwch y llithren ddŵr ddifyr hon, o'ch gwaith chi eich hun, i chwyldroi eich gweithgareddau chwarae gwlyb! Anogwch y plant i gymryd risgiau priodol gyda'r gweithgaredd hwn, nad yw'n beryglus iawn ond sy'n berffaith ar gyfer diwrnod glawog.



Gweithgareddau

Gwisgwch ddillad glaw.
Dewiswch lethr glaswelltog addas a chodwch unrhyw frigau neu gerrig amlwg oddi ar y ddaear.
Gosodwch ryw fath o gynfas blastig, e.e. tarpolin, ar y llethr a defnyddiwch begiau pabell i gadw'r gynfas yn ei lle.
Gadewch i'r gynfas wlychu (ychwanegwch ddŵr gan ddefnyddio can dyfrhau os nad yw'n bwrw glaw) a chwistrellwch ychydig o hylif golchi llestri arni. Llithrwch i lawr i'w gwaelod, un ar y tro.

Offer

- Tarpolins neu gynfasau plastig, e.e. hen lenni cawod
- Hylif golchi llestri
- Diwrnod glawog, neu rywle i gael dŵr
- Pegiau pabell a llethr glaswelltog
- Dillad glaw

Cwestiynau allweddol

Pwy fydd yn llithro gyflymaf?
Pwy fydd yn mynd bellaf?
Pam rydym yn ychwanegu hylif golchi llestri?
Sgaffaldiwch ymchwiliadau gwyddonol syml.

Deilliannau dysgu

Mae'r gweithgaredd hwn yn hybu amrywiaeth eang o sgiliau a deilliannau dysgu, sy'n cynnwys iechyd a lles, sgiliau echddygol bras, datblygu gwydnwch, asesu risg, her bersonol ac ymdeimlad o gyflawni.

Symud y dysgu yn ei flaen

- Amcangyfrifwch ac yna mesurwch bellterau gan ddefnyddio unedau mesur ansafonol.
- Ymchwiliwch i agweddau syml ar ffrithiant, grymoedd ac onglau mewn cyd-destunau eraill.